Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

13 Awst 2019

Annwyl Ken

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cychwyn ei baratoadau ar gyfer craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Rydym yn gwerthfawrogi bod yr amserlen ar gyfer y gyllideb ddrafft yn ansicr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol eich hysbysu y byddwn yn eich gwahodd maes o law i sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft. Rwy'n gobeithio y gallwn gytuno ar ddyddiad pan fydd gennym fwy o wybodaeth am yr amserlen.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ein paratoadau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth ynghylch y materion a nodir yn y llythyr hwn. Wrth gwrs, ni ddylech deimlo bod ein cais yn eich cyfyngu, ac mae croeso i chi drafod unrhyw faterion eraill a fydd, yn eich barn chi, yn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith.

Cyn y sesiwn graffu hon, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

Y Rhaglen Lywodraethu / Ffyniant i Bawb

- Esboniad o sut mae dyraniadau'r gyllideb o fewn eich portffolio yn gydnaws â blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a Ffyniant i Bawb.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

- Esboniad o sut mae gosod datgarboneiddio fel chweched flaenoriaeth Ffyniant i Bawb wedi dylanwadu ar y broses o osod y gyllideb eleni.
- Enghreifftiau o ddyraniadau yn y gyllideb a fydd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio.
- Enghreifftiau o sut yr ydych wedi ymateb i ddatganiad 'Argyfwng Hinsawdd' Llywodraeth Cymru a sut y mae hynny wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

Gwariant ataliol

- Manylion y gyfran o gyllideb y portffolio a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol a sut y mae'r gyfran wedi cynyddu o'i chymharu â chyllideb y llynedd.
- Manylion am ba bolisïau neu raglenni penodol yn y portffolio sydd wedi'u bwriadu i fod yn ataliol.

Llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

- Esboniad o sut rydych wedi defnyddio tystiolaeth wrth flaenoriaethu dyraniadau eich cyllideb ddrafft a sut y byddwch yn monitro ac yn arfarnu rhaglenni i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian ac yn llywio prosesau gosod cyllidebau yn y dyfodol.
- Manylion am sut y gwnaeth yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid lywio a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Enghreifftiau o sut y mae'r Ddeddf wedi llywio penderfyniadau ynghylch dyraniadau penodol yn y gyllideb.
- Manylion am sut y mae'r broses asesu effaith wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys enghreifftiau o ble cafodd penderfyniad ei asesu yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

Asesiad cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant

- Manylion am sut rydych chi wedi ystyried effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg, gan gynnwys manylion am unrhyw asesiadau effaith perthnasol.

- Manylion am sut y mae hawliau plant wedi cael eu hystyried ym mhenderfyniadau'r gyllideb ar gyfer y portffolio.

Deddfwriaeth

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithredu deddfwriaeth sylfaenol bresennol ac arfaethedig, a gweithredu is-ddeddfwriaeth bresennol ac arfaethedig.

Meysydd ychwanegol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion am sut y bydd dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn mynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

- Datblygu rhwydwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan;

- Gwella ansawdd aer;

- Buddsoddi mewn priffyrdd, gan gynnwys dyraniadau'r gyllideb ar gyfer y fenter "Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Cymru".

Yn ogystal â hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu:

- Diweddariad ar gynigion trafnidiaeth sydd wedi cael eu gwerthuso gan ddefnyddio WelTAG 2017 a'ch barn ar eu heffaith a'u canlyniadau;

- Pa faterion amgylcheddol y gofynnwyd i Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru eu hystyried yn ystod ei waith a pha gamau a gymerwyd i sicrhau bod ei argymhellion yn cefnogi blaenoriaeth datgarboneiddio Llywodraeth Cymru?

- Eich asesiad, gan gynnwys enghreifftiau penodol, o effaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar ddatgarboneiddio a thwf gwyrdd a glas, o gofio mai'r rhain fu ffocws cychwynnol y Comisiwn;

- Diweddariad ar y nifer sy'n cael cyllid o dan yr alwad i weithredu ym maes datgarboneiddio gan Gronfa Dyfodol yr Economi (EFF);

- Eich asesiad o'r cyfraniad y mae Trafnidiaeth Cymru yn ei wneud i leihau allyriadau a datgarboneiddio, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylid cysoni amcanion craidd y cwmni â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac un o'r rhain yw "adeiladu Cymru gynaliadwy".

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig